

GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (FFYRDD AMRYWIOL, PEN-Y-BONT AR OGWR) (GWAHARDD MYNEDIAD) (AMRYWIO) (DIRYMU) 2026

HYSBYSIR DRWY HYN bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cyngor") sef Awdurdod Prifffyrdd Pen-y-bont ar Ogwr drwy arfer eu pwerau o dan Adrannau 1 a 2 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o'r Ddeddf yn gwneud y Gorchymyn canlynol a fydd yn:-

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 27/02/2026 a'i enw fydd "GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (FFYRDD AMRYWIOL, PEN-Y-BONT AR OGWR) (GWAHARDD MYNEDIAD) (AMRYWIO) (DIRYMU) 2026"
2. Amrywio Gorchymyn Cyngor Sir Morgannwg (Ffyrdd Amrywiol, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Mynediad), 1973 ("Gorchymyn 1973") fel y bydd yr atodlen i Orchymyn 1973, o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, yn cael ei diwygio i ddileu'r darnau o ffyrdd a nodir yn atodlen 1 isod.
3. Amrywio Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ffyrdd Amrywiol, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Mynediad), (Amrywio) (Dirymu) 2022 ("Gorchymyn 2022") fel y bydd atodlen 2 Gorchymyn 2022, o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, yn cael ei diwygio i ddileu'r darnau o ffyrdd a nodir yn atodlen 1 isod.
4. O'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, bydd yr atodlen i Orchymyn 1973 ac atodlen 2 Gorchymyn 2022 yn cael eu dehongli a'u darllen fel y cynhwysir yn atodlen 2 isod.
5. Ac eithrio fel y maent wedi'u haddasu gan y Gorchymyn hwn, bydd gweddill darpariaethau Gorchymyn 1973 a Gorchymyn 2022 yn parhau ac yn parhau i fod mewn grym yn llawn.
6. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Gorchymyn a wneir neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'i gwneud o dan y Ddeddf ac sy'n bodoli ar yr adeg pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym ac sy'n gosod cyfyngiad neu waharddiad ar gerbydau a neu gerddwyr ar hyd y darnau o ffyrdd a nodir yn Atodlen y Gorchymyn hwn y bydd darpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn parhau.
7. Bydd y gwaharddiad neu'r gofyniad a orfodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, a heb randdirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan unrhyw reoliad neu Orchymyn a wnaed neu sydd ag effaith fel pe bai wedi'i wneud dan y Ddeddf neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.
8. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, ei ailddeddfu gan unrhyw ddeddfiad dilynol neu fel pe bai'n cael effaith yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.
9. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i'r dehongliad o Ddeddf Seneddol.

ATODLEN 1
(DIRYMU)

1.	2.
Park Street	Cae Dre Street
Y darn hwnnw o Sunnyside Road o'r gyffordd â Stryd yr Angel i ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street	Y darn hwnnw o Sunnyside Road o ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street i'w phen caeedig.
Rice Street	Y darn hwnnw o Sunnyside Road o ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street i'w phen caeedig.

ATODLEN 2

DARNAU O FFYRDD AC OCHRAU DARNAU O FFYRDD YM
MWRDIESTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

1.	2.
Nolton Street	Edward Street
Caewallis Street.	Phyllis Avenue
Derwen Road	Mackworth Street
Y lôn sy'n cysylltu Park Street a Sunnyside Road.	Y darn hwnnw o Sunnyside Road o'r pen caeedig i ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street.

Dyddiedig:11/02/2026

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)
Cyngor Bwrdeistref Sirol)
Pen-y-bont ar Ogwr yma yng ngŵydd:-)

LLOFNODWR AWDURDODEDIG

